

Blodau ein Dôl Drefol

AMGUEDDFA
CYMRU

022

Mae nifer o wahanol blanhigion ar ein Dôl Drefol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Dyma bum planhigyn sy'n blodeuo'n gyson ar y ddôl dros yr haf. Gallwch chi eu gweld nhw mewn gerddi, wrth ochr y ffordd ac mewn cloddiau hefyd. Planhigion cynhenid yw'r rhain i gyd, sy'n golygu eu bod nhw wedi cyrraedd yma ymhell yn ôl heb help pobl. Cadwch lygad amdanyn nhw, ond peidiwch â'u casglu er mwyn i beillwyr fedru ymweld. Rhanwch eich canfyddiadau gyda ni ar Twitter @CardiffCurator.

Am ragor o ganllawiau natur, neu i gysylltu ag un o'n gwyddonwyr amgueddfa am help i adnabod sbesimen ewch i: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws/adnabod-natur/taflen-sylwi/

Nature
on your
doorstep



Pumnalen Ymlusgol
Potentilla reptans

Bydd y coesyn blodeuog yn tyfu hyd at 1m, ac yn ymlusgo ar hyd y llawr. Blodau melyn rhwng Mehefin a Gorffennaf. Cadwch lygad am y Gwibiwr Brith (*Pyrgus malvae*), glöyn byw sydd â'i lindys yn bwydo ar y dail. Tyfu ar dir gwastraff, cloddiau a dolydd.

Y Feddyges Las
Prunella vulgaris

Mae'n tyfu hyd at 30cm. Blodau fioled tywyll, a gwyn weithiau, i'w gweld rhwng Mehefin a Medi – ffynhonnell dda o neithdar i wenyng a chacwn. Gall gael ei gymysgu â Glesyn y Coed (*Ajuga reptans*) sydd â blodau glas. Tyfu mewn glaswelltir.

Briwydden Felen
Gallium verum

Blodau bach, melyn, pedwar petal i'w gweld rhwng Gorffennaf a Awst, ar goesynnau talsyth neu wasgarog sy'n tyfu hyd at 1m. Wedi cael eu defnyddio i stwffio matresi gan fod yr arogl fanila yn cadw chwain draw. Gall gael ei gymysgu â Llau'r Offeiriad (*Galium aparine*). Tyfu mewn glaswelltir, twyni tywod a rhostir.

Briwlys y Gwrych
Stachys sylvatica

Coesynnau cadarn, sgwâr yn tyfu hyd at 1m. Mae gan y dail arogl cryf ar ôl eu briwio, ac mae blew stiff dros y planhigyn i gyd. Blodau coch borffor gyda marciau gwyn i'w gweld rhwng Mehefin a Medi. Tyfu mewn coetir, cloddiau, tir garw a dolydd.

Pysen y Ceirw
Lotus corniculatus

Tueddol o dyfu ar wasgar, yn aml mewn sypiau, hyd at 50cm. Blodau melyn i oren, yn aml gyda dafnau coch, rhwng Mehefin a Medi. Mae'r codau hadau ar eu coesynnau yn edrych fel traed adar. Tyfu mewn pridd wedi traenio'n dda, mewn glaswelltir, dolydd ac ar fin y ffordd.